Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Arolygiad yn Seiliedig ar Risg o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd

**Chwefror 2021**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

© Hawlfraint y Goron 2021 WG42151 ISBN digidol 978-1-80082-809-4

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harolygiad seiliedig ar risg a gynhaliwyd rhwng 23 Tachwedd a 3 Rhagfyr 2020.

### Trosolwg

Cafodd yr arolygiad seiliedig ar risg hwn ei lywio gan bryderon a bennwyd yn ein llythyr i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2019-2020. Gwnaethom adolygu'r cynnydd y mae gwasanaethau cymdeithasol plant wedi'i wneud ar eu taith tuag at wella, a'r graddau y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant.

**Canolbwyntiwyd ar y canlynol:**

1) Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol i gadw pobl yn ddiogel a hybu eu llesiant, yn ystod y pandemig.
2) Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn darparu cymorth, gofal a help cynnar a chyfnodau pontio di-dor rhwng gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd.
3) Yr hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud i atal yr angen i blant gael eu derbyn i'r system gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Mae uwch-reolwyr ac aelodau arweiniol wedi cyflwyno diwylliant newydd o ddisgwyliadau a safonau uwch ym maes gofal cymdeithasol yng Nghyngor Caerdydd. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r heriau y mae hyn yn eu peri ac mae'n gweithio'n galed gyda phob rhanddeiliad i gefnogi diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, yn ogystal â chefnogi diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau.

Mae arweinwyr y Cabinet ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant yn wybodus iawn. Maent yn deall y newidiadau y mae angen eu gwneud er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau, ac mae'r ddau yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl.

Mae partneriaethau'n gweithio'n dda, mae'r awdurdod lleol yn ymgysylltu â phob un o'i adrannau a phartneriaid perthnasol eraill er mwyn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Datblygwyd partneriaethau strategol ag uchelgais cyffredin, sef sicrhau y darperir y gwasanaethau mwyaf didor a chynaliadwy â phosibl. Yn ystod ein gweithgarwch arolygu a monitro, roedd pawb wedi ymgysylltu a chydweithredu'n dda iawn â ni, a oedd, yn ein barn ni, yn adlewyrchu awydd yr awdurdod lleol i wneud yn well dros bobl Caerdydd. Rydym yn cydnabod yr heriau ychwanegol y

mae'r awdurdod lleol yn eu hwynebu wrth reoli gwasanaethau yn ystod pandemig a diolchwn i bawb a gymerodd ran yn y gwaith hwn a'i wneud yn bosibl.

## Pobl – llais a rheolaeth

**Gwnaethom ofyn – Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau. Sut y caiff hyn ei gydbwyso â'r argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. A all yr awdurdod lleol ddangos bod yr hyn a gaiff ei ddysgu yn cael ei ddefnyddio i lywio ffyrdd newydd o weithio?**

Roedd tystiolaeth o ymarferwyr yn mabwysiadu dull gweithredu cydweithredol ac yn gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn sicrhau bod eu barn a'u dymuniadau, a barn a dymuniadau eu gofalwyr, yn cael eu nodi yn y rhan fwyaf o asesiadau a chynlluniau gofal. Roedd dealltwriaeth y cytunir arni ynghylch y ffordd y caiff anghenion eu diwallu a'r ffordd y caiff canlyniadau personol eu cyflawni.

O fewn gwasanaethau plant, mae Cynlluniau Gofal a Chymorth yn amrywio o ran eu hansawdd. Mae'r cynlluniau gorau yn eglur ynghylch disgwyliadau, gyda chymysgedd o gamau gweithredu gwirioneddol ac ymarferol sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd. Mae diffyg eglurder o ran diben yn y cynlluniau gwannaf, ac mae'n rhaid iddynt gynnwys amserlenni ar gyfer y camau y mae angen eu cymryd er mwyn helpu rhieni i ddeall yr hyn sydd angen ei wneud i wella bywydau eu plant.

Mae'r bobl yn cymryd rhan gadarnhaol yn y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau. Cafodd y Strategaeth Comisiynu Rhanbarthol ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu ei chyd-gynhyrchu gan bobl sydd ag anableddau dysgu a'u gofalwyr. Ymgysylltir ac ymgynghorir â phlant a phobl ifanc anabl ynghylch datblygu gwasanaethau, er enghraifft y gwasanaeth seibiant. Tra bod y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn cefnogi grŵp Bright Sparks y mae plant sy'n derbyn gofal yn ei fynychu er mwyn bod yn rhan o ddatblygiadau'r gwasanaeth a datblygiadau polisi.

Roedd tystiolaeth bod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn asesiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Roedd rhai o'r ymarferwyr yn ymwybodol o drefniadau i gomisiynu eiriolaeth ffurfiol, ond nid oedd rhai eraill yn ymwybodol o hyn. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff eiriolaeth anffurfiol a ffurfiol ei hystyried yn gyson fel y'i nodwyd yn Rhan 10 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Deddf 2014.

Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl yng Nghaerdydd deilwra a rheoli eu cefnogaeth eu hunain drwy ddefnyddio lleoliadau uniongyrchol yn anghyson ac mae angen gwella hyn. Nodwyd arfer da o ran cynnig taliadau uniongyrchol yn y gwasanaethau plant. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei rwystro o ganlyniad i recriwtio a chadw cynorthwywyr personol. Gwelsom nad oedd taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig yn rheolaidd yn y gwasanaethau oedolion. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod

pobl yn cael cynnig taliadau uniongyrchol yn rheolaidd ac yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau hyddysg o ran cael gafael arnynt, yn ogystal â'r ffordd y gellir cyflawni'r lefel o reolaeth yr hoffent ei chynnal dros eu gofal a'u cymorth eu hunain.

Caiff iaith ddewisol ei chydnabod yn gadarnhaol fel ffactor effeithiol o ran adeiladu cydberthnasau effeithiol rhwng pobl ac ymarferwyr, a chânt eu cefnogi i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Pan nad Cymraeg/Saesneg yw iaith gyntaf pobl, mae'r gwasanaeth yn mynd ati'n rhagweithiol i ddod o hyd i gyfieithwyr a'u cyflogi er mwyn galluogi ac annog pobl, gan gynnwys plant a phobl  ifanc, i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn llawn a sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed.

Mae cynigion asesiadau gofalwyr a'r nifer sy'n manteisio arnynt yn amrywio rhwng timau. Cafodd nifer o ofalwyr gynnig asesiadau gofal a chymorth parhaus yn ystod y pandemig. Mae'r Tîm Iechyd ac Anabledd Plant yn cwblhau rhai asesiadau gofalwyr ochr yn ochr â'r asesiad o'r plentyn/person ifanc. Yn y gwasanaethau oedolion, roedd rhai gofalwyr yn gwrthod asesiadau gofalwyr am eu bod yn awyddus i'r ffocws gael ei roi ar anghenion y rheini y gofelir amdanynt. Mae angen i reolwyr ystyried yr amrywiaeth yn yr ymarfer rhwng timau a hyrwyddo'r gwersi a ddysgwyd o'u meysydd o ymarfer cadarnhaol eu hunain. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y gofalwyr yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir er mwyn eu cefnogi i barhau yn eu rôl gofalu a'u hatal rhag cyrraedd sefyllfa argyfyngus.

O fewn y gwasanaethau plant mae ymrwymiad cryf o hyd i leihau nifer y gweithwyr asiantaeth drwy atodiad i'r farchnad a dull gweithredu 'tyfu eich hun'. Mae'r awdurdod lleol yn dal yn ymrwymedig i'r gwelliant hwn, ond er gwaethaf yr ymdrech hon, mae ei allu i recriwtio ymarferwyr â chymwysterau addas yn her o hyd. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau i fynd i'r afael ag effaith negyddol y newid cyson ymhlith gweithwyr y maes gweithio mewn tîm a meithrin cydberthnasau, yn enwedig gyda phobl ifanc a theuluoedd, yn ogystal â'r goblygiadau ariannol sy'n berthnasol i'r awdurdod.

Er bod dangosyddion yn awgrymu bod yr awdurdod lleol yn dechrau sefydlogi'r gweithlu, mae rhai ymarferwyr a ymatebodd i'r holiadur, a rhai y gwnaethom gyfarfod â nhw yn ystod yr arolygiad, yn bryderus ac yn ansicr o hyd ynghylch newidiadau strwythurol pellach, yn enwedig i dimau penodol o fewn y gwasanaethau plant. Er i ymgynghoriad gael ei gynnal, roedd rhai yn teimlo bod penderfyniadau ar newidiadau arfaethedig wedi'u gwneud eisoes. Dylai uwch-reolwyr barhau i flaenoriaethu a datblygu'r ffyrdd y maent yn cynnwys ymarferwyr ac yn ymgysylltu â nhw, yn enwedig mewn cyfnod lle mae newid trawsnewidiol yn digwydd yn gyflym.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr ac roeddent o'r farn eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Nododd ymarferwyr a oedd yn gweithio o gartref eu bod yn gwerthfawrogi pa mor hawdd ydyw i gysylltu â rheolwyr a'r cymorth gan gymheiriaid a geir gan gydweithwyr. Nododd yr ymarferwyr hynny yr oedd yn rhaid iddynt fynd i'r swyddfa eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwaith, eu bod yn gallu cael gafael ar gyfarpar diogelu personol yn hawdd, bod profion COVID-19 yn cael eu cynnal, ac roeddent yn gadarnhaol ynghylch y cyngor a'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau eu llesiant emosiynol.

Er bod llawer o ymarferwyr wedi nodi eu bod wedi cael sesiynau goruchwylio a chymorth gan reolwyr, ni welsom unrhyw dystiolaeth o drefniadau gwerthuso beirniadol yn y sampl o gofnodion goruchwylio a welsom. Dylai sesiynau goruchwylio gynnig cyfle ar gyfer myfyrio personol a phroffesiynol, her adeiladol a gosod cyfeiriad. Mae'n rhaid i reolwyr sicrhau bod goruchwyliaeth a chymorth rheoli o ansawdd uchel yn amlwg ar draws pob maes gwasanaeth. Dylai cysondeb wrth oruchwylio staff a chofnodion goruchwylio da fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella.

Yn y gwasanaethau plant, caiff y gwaith ei archwilio'n rheolaidd a chaiff ei atgyfnerthu gan system gymedroli sy'n rhoi dealltwriaeth glir i'r awdurdod lleol o gydymffurfiaeth o ran ymarfer. Nid yw'r camau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau bob amser yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau i blant, ac mae hyn yn gam hanfodol er mwyn helpu'r gwasanaethau i symud i arfer da. Mae'r gwaith arfaethedig o gyflwyno fframwaith Sicrhau Ansawdd i'r gwasanaethau plant wedi'i oedi o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith er mwyn atgyfnerthu ac ymgorffori ei ddull gweithredu yn y gwasanaethau oedolion.

## Atal

**Gwnaethom ofyn – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol? Gan gynnwys cymryd pob cam sydd ei angen i sicrhau mai teulu'r plentyn fydd yn magu'r plentyn, a chefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl cyn i bethau droi'n argyfwng.**

Mae uwch-reolwyr yn deall yn iawn bod mynediad at drefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol i gynnal llesiant a lliniaru'r galw ar wasanaethau statudol. Mae'r gwaith o ail-lywio ac ail-ddylunio gwasanaethau yn canolbwyntio ar ddarparu trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar. Yn y Gwasanaethau Plant, clywsom fod Hwb Cymorth Cynnar wedi cael ei ddatblygu a chlywsom hefyd am y ffordd roedd gwasanaethau presennol wedi dod ynghyd i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i bobl. Yn yr un modd, yn y gwasanaethau oedolion, gwelsom fod y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bobl fynediad at ystod eang o gymorth er mwyn byw mor annibynnol â phosibl.

Mae'r awdurdod lleol wedi dangos bod angen newid ac addasu gwasanaethau er mwyn adlewyrchu'r heriau newydd a nodwyd yn ystod y pandemig. Mae'r gwasanaethau ar gyfer oedolion wedi cael eu hatgyfnerthu drwy gydnabod bod angen arbenigwyr iechyd meddwl wrth ddrws ffrynt gwasanaethau oedolion. Yn yr un modd, mae swyddi iechyd meddwl cynradd wedi atgyfnerthu'r dull amlasiantaeth o weithredu o fewn yr Hwb Cymorth Cynnar yn y gwasanaethau plant.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio technoleg newydd mewn ffordd greadigol er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Er enghraifft, mae Swyddogion Ymgysylltu'r Gwasanaethau Byw'n Annibynnol yn cefnogi pobl drwy ddefnyddio eu ffonau clyfar neu lechi i ymuno â grwpiau arbennig ar Zoom neu Microsoft Teams. Tra roeddem yn y gwasanaethau plant, clywsom am y ffordd yr oedd adolygiadau rhithwir a oedd yn defnyddio llwyfannau'r cyfryngau yn denu mwy o bobl ifanc i gymryd rhan ynddynt.

Mae'r awdurdod lleol yn adolygu'r ddarpariaeth o wasanaeth sydd ar gael i blant anabl. Mae Gwasanaeth Rhianta Caerdydd yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod pob elfen o'r gwasanaeth yn cynnwys ac yn cefnogi plant sydd ag anghenion arbennig a'u rhieni. Yn ogystal â hyn, mae ffocws ar sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau a'r cymhwysedd i ddiwallu anghenion fwyfwy cymhleth y plant a'u teuluoedd.

Mae digonolrwydd llety addas ar gyfer pobl ifanc yn dal i fod yn her. Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar adolygu'r drefn gomisiynu er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau o ansawdd da i'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Llety a Chymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnwys datblygu darpariaeth reoleiddiedig newydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 20 oed, datblygu darpariaeth llety preswyl brys a darpariaeth breswyl drwy asesiad (camu i fyny/camu i lawr) am fod rhai o'r adnoddau yn cael eu datblygu er mwyn diwallu anghenion y plant mwyaf cymhleth ac agored i niwed yn yr awdurdod.

Fel yn achos llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae pwysau sylweddol ar gapasiti yn y farchnad gofal yn y cartref yng Nghaerdydd. Mae dealltwriaeth o'r cynnydd yn y galw o ganlyniad i'r pandemig ar ben pwysau arferol y gaeaf. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda darparwyr er mwyn paratoi ar gyfer y gwaith o ailgomisiynu ei wasanaeth gofal yn y cartref, ac mae rheolwyr o'r Tîm Iechyd ac Anabledd Plant wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod canlyniadau ar gyfer plant anabl yn cael eu cynnwys yn y fanyleb.

## Partneriaethau

**Gwnaethom ofyn – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sicrhau y darperir gwasanaethau integredig ac ysgogi gwasanaethau cynaliadwy? Gan gynnwys ystyried cyfleoedd i arloesi yn sylweddol neu symud ymlaen o brosiectau unigol a ariennir**

Yn y rhan fwyaf o ffeiliau a welsom, gwelwyd tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig.

Fodd bynnag, dywedodd rhai pobl a ymatebodd i'n harolwg wrthym am anawsterau wrth gysylltu â'r gwasanaeth. Clywsom nad oedd galwadau yn cael eu dychwelyd a chlywsom fod oedi hir cyn bod galwadau'n cael eu dychwelyd. Codwyd pryderon ynghylch agwedd rhai aelodau o'r staff. Clywsom fod oedi wrth drosglwyddo achosion rhwng timau ac roedd hyn yn faes pryder penodol a godwyd gan y staff a'r bobl ifanc lle roedd gan dimau drosiant uchel o staff. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau fod ganddo drefniadau cadarn ar waith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol â phobl.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom a chlywsom am enghreifftiau cadarnhaol o ddull amlasiantaethol o reoli risgiau, yn ogystal â thimau amlddisgyblaethol a rheolwyr yn cydweithio yn ystod y pandemig i rannu gwybodaeth/cudd-wybodaeth er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ac yn rheoli risgiau'r bobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Dywedodd ymarferwyr a rheolwyr a oedd yn gweithio gyda phlant anabl wrthym fod atgyfnerthu'r trefniadau amlasiantaethol wedi galluogi ymatebion amserol gan y gwasanaeth ar draws maes iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

Mae partneriaethau yn gweithio'n dda ar y rhan fwyaf o lefelau yn y sefydliad. Gwnaeth yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Addysg a'r trydydd sector ddisgrifio'r cydberthnasau fel rhai da ac effeithiol ar lefel weithredol a strategol. Dywedodd partneriaid wrthym fod newidiadau ar y lefel reoli uwch yn yr awdurdod lleol, wedi galluogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau strategol iach rhwng y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n gallu manteisio i'r eithaf ar y defnydd gorau o adnoddau a darparu canlyniadau gwell i bobl. Gwelsom fod arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol er mwyn dod o hyd i atebion, gan ganolbwyntio ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau didor a chynaliadwy.

Gall uwch-swyddogion ddangos sut mae'r cysylltiadau rhwng eu cyfrifoldebau cyfarwyddiaethol gwahanol yn cefnogi agenda'r gwasanaethau cymdeithasol ar draws yr awdurdod lleol. Un enghraifft o effeithiolrwydd y bartneriaeth hon yw cydnabyddiaeth o bwysigrwydd tai hygyrch i lesiant oedolion hŷn a'r rhai sy'n gadael gofal.

Dywedodd darparwyr wrthym am y cyfarfodydd cadarnhaol â chomisiynwyr yn ystod y pandemig. Er bod y rhan fwyaf wedi nodi bod y cyfathrebu'n dda, clywsom nad yw darparwyr bob amser yn cael gwybod am newidiadau i gynlluniau gofal a chymorth

pobl na'u hamgylchiadau personol. Mae'n bryder bod hyn yn cynnwys pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.  Mae hwn yn faes y dylai'r awdurdod lleol ei adolygu am fod cyfathrebu da â darparwyr yn allweddol i sicrhau llesiant a diogelwch pobl, yn enwedig yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

## Llesiant

**Gwnaethom ofyn – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn cynnal eu diogelwch ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt. Gan gynnwys sicrhau bod plant yn cael eu symud o ofal yr awdurdod lleol yn amserol, a chefnogi pobl hŷn i ddychwelyd adref o'r ysbyty.**

Mae'r gwasanaethau oedolion a phlant yn cael budd o gymorth gwleidyddol a chorfforaethol da, yn ogystal â dealltwriaeth a rennir o'r cyfeiriad a'r ysgogiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn gwella canlyniadau i bobl yn effeithiol.

Mae'r awdurdod lleol wedi wynebu newidiadau ar lefel reoli uwch ac, yn dilyn ymadawiad y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ar ddiwedd mis Medi 2020, mae'r rôl wedi cael ei phennu i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau. Cawsom wybod am y bwriad i recriwtio ar gyfer dwy swydd newydd, sef Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant a Chyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau. Mae recriwtio uwch-reolwyr cymwys a phrofiadol sy'n deall y cymhlethdod a'r galw cynyddol sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol plant ac oedolion yn hanfodol. Mae hyn yn allweddol i'r gwaith o ymgorffori'r gwelliannau fel yr amlinellir yn y Strategaeth Gwasanaethau Plant a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Strategaeth Oedolion.

Mae gweithlu'r awdurdod lleol yn deall y weledigaeth sy'n deillio o ddull gweithredu seiliedig ar gryfderau, gyda'r fframwaith arferion cyfathrebu cydweithredol sy'n cael ei ymgorffori fwyfwy yn y gwasanaethau oedolion. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau a welsom yn seiliedig ar gryfderau, gan ganolbwyntio ar yr hyn a oedd yn bwysig i'r person a'r canlyniadau yr oedd am eu cyflawni. Roeddent wedi'u strwythuro o amgylch pum elfen asesu ac yn deillio o sgwrs rhwng yr unigolyn, y gofalwr/teulu ehangach a'r ymarferydd.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel yn flaenoriaeth. Mae'r gwaith o ailstrwythuro gwasanaethau plant i gynnwys gwasanaethau cymorth cynnar, ymyrryd ac atal ynghyd â dull Arwyddion Diogelwch yn galluogi gweithwyr cymdeithasol a staff cymorth i gynnal ffocws yn seiliedig ar gryfderau wrth ymgysylltu â phobl ifanc a theuluoedd. Mae cyflwyno'r Fframwaith Ailuno yn allweddol i'r gwaith lleihau hwn, am ei fod yn cefnogi'r strategaeth hon ac yn cynnwys mwy o drefniadau gofal perthnasau, y defnydd o drefniadau gwarcheidwaid arbennig a chynllun peilot â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Llys i Blant a Theuluoedd er mwyn cyflymu'r gwaith o gyflwyno gorchmynion gofal lle y mae rhieni'n cytuno.

Mae'r gwaith o foderneiddio'r Gwasanaeth Maethu yn mynd rhagddo, gyda'r nod o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc drwy feithrin y gallu i gefnogi Gofalwyr sy'n Berthnasau a Gwarcheidwaid Arbennig. Yn ogystal â hyn, mae'r gwaith parhaus o recriwtio gofalwyr maeth wedi cynyddu capasiti ac amrywiaeth lleoliadau mewnol.

Er bod y patrymau gwaith sydd wedi bod yn newid mewn ymateb i'r pandemig wedi achosi heriau, mae'r awdurdod lleol hefyd wedi mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol ac arloesol. Yn ystod yr arolygiad, rhannwyd llawer o enghreifftiau

cadarnhaol o'r ffordd y gwnaeth y bartneriaeth ymateb i'r pandemig â ni. Roedd hyn yn cynnwys hybu llesiant pobl ddigartref sy'n agored i niwed drwy greu cyfleoedd i bobl gyflawni canlyniadau cadarnhaol a'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Deellir pwysigrwydd rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid. Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi ceisio hybu llesiant pobl sy'n agored i niwed drwy greu capasiti ychwanegol er mwyn hwyluso trefniadau rhyddhau unigolion o'r ysbyty yn ddiogel ac i gefnogi pobl gartref, a thrwy hynny osgoi anfon pobl i'r ysbyty yn ddiangen.

Gwelsom fod yr awdurdod lleol yn ymateb yn brydlon i bryderon am ddiogelwch ac yn blaenoriaethu risgiau i ddiogelwch pobl yn briodol. Pan fydd angen amddiffyn plant, mae'r mwyafrif helaeth o'r penderfyniadau a wnaed yn briodol, ac mae'r ymateb yn gyflym ac wedi'i gydlynu'n dda. Mae cyfarfodydd strategol ar gyfer amddiffyn plant yn darparu fforymau effeithiol i bartneriaid rannu gwybodaeth sy'n galluogi i'r penderfyniadau trothwy cywir gael eu gwneud ar gyfer plant sy'n wynebu risg. I'r gwrthwyneb, wrth i gynlluniau gael eu datblygu roedd y ffocws ar risgiau wedi lleihau, nid oedd rhannu manylion ac annog rhwydwaith o deulu a ffrindiau bob amser yn amlwg.

Pan nad oedd sefyllfaoedd plant yn gwella, roedd yr elfen cyn cynnal achosion o'r amlinelliad cyfraith gyhoeddus yn cael ei ystyried yn gyflym ac yn gynhwysfawr drwy broses cyfarfod cynllunio cyfreithiol sefydledig. Mae cyfarfodydd cyn cynnal achosion â rheini yn cael eu rheoli'n dda. Caiff cynadleddau grŵp teulu eu defnyddio'n ofalus er mwyn nodi cymorth teuluol ychwanegol i atgyfnerthu gwaith cynllunio diogelwch. Mae'r cynadleddau hyn yn ystyried rhwydwaith teulu ehangach plant nad ydynt yn gallu aros gyda'u rheini yn ddiogel yn briodol.

Mae angen gwneud gwaith pellach i ymgorffori'r meysydd allweddol fel y'u nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Diogelu Oedolion ym mis Chwefror 2020. Gwelsom enghreifftiau mewn perthynas â threfniadau diogelu oedolion lle yr eir i'r afael â diogelwch a llesiant pobl yn llawn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r angen i atgyfnerthu a dilysu gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses o reoli adroddiadau diogelu ac ymgymryd ag ymholiadau adran 126.

Dywedodd partneriaid, ymarferwyr a rheolwyr wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan y Tîm Diogelu Oedolion. Gwnaethant ddweud bod ymarfer wedi gwella yn ddiweddar, gyda llawer ohonynt yn cysylltu hynny â'r capasiti arweinyddiaeth ychwanegol a grëwyd yn y tîm.

## Dull

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o bell.

- Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hystyried. Gwnaethom edrych ar gyfanswm o 50 o ffeiliau achos, a gwnaed gwaith dilynol ar 14 o'r rhain gyda chyfweliadau â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau o'r teulu
- Gwnaethom edrych ar ffeiliau goruchwylio 9 aelod o staff a chofnodion goruchwylio. Gwnaethom edrych ar sampl o bedair cwyn, dau o'r gwasanaethau plant a dau o'r gwasanaethau oedolion
- Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig, uwch-swyddogion a staff gweithredol
- Cynhaliwyd cyfweliadau ag amrywiaeth o uwch-swyddogion o sefydliadau statudol ac asiantaethau partner
- Gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- Cawsom 213 o ymatebion i'r arolwg y gwnaethom ei gynnal ar gyfer cyflogeion gwasanaethau cymdeithasol
- Cawsom 65 o ymatebion i'r arolwg y gwnaethom ei gynnal ar gyfer rhieni a gofalwyr plant anabl
- Cawsom 89 o ymatebion i'r arolwg y gwnaethom ei gynnal ar gyfer pobl a oedd wedi cael profiad o ofal a chymorth

## Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd ar gyfer eu gwella fel blaenoriaeth a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn trwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad gyda'r penaethiaid gwasanaethau a'r cyfarwyddwr.

Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol.

Hoffem ddiolch i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ar gyfer yr arolygiad hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.